**EITEM AR YR AGENDA: 14**

**GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**ADRODDIAD AR GYFER YR AWDURDOD TÂN AC ACHUB**

| | |
|---|---|
| DYDDIAD: | 19eg Medi 2005 |
| ADRODDIAD GAN: | **PRIF SWYDDOG TÂN CYNORTHWYOL (CYFLWYNO'R GWASANAETHAU)** |
| DIBEN YR ADRODDIAD: | Cyflwyno i'r Aelodau bolisi drafft ar strategaeth Rheoli Risg Corfforaethol y Gwasanaeth. |

1. **CYFLWYNIAD**

1.1 Yng nghyfarfod yr Awdurdod ar 20fed Mehefin 2005, derbyniodd yr Aelodau gyflwyniad gan Swyddfa Archwilio Cymru ar y negeseuon allweddol oedd yn codi o Gynllun Archwilio 2004/2005.

1.2 Roedd y cyflwyniad yn tynnu sylw at y ffaith fod strategaeth ddrafft ar reoli risg wedi cael ei datblygu ac mewn lle, ond bod angen ei mabwysiadu fel dogfen strategol.

2. **CEFNDIR**

2.1 Rheoli risg yw'r broses o adnabod y risgiau sylweddol sydd i gyflawni amcanion strategol a gweithredol Awdurdod. Gwneir hyn trwy werthuso eu canlyniadau posib a phennu a gweithredu'r ffordd fwyaf effeithiol o'u rheoli a'u monitro.

2.2 Yn eu harchwiliad yn 2002, nododd Comisiwn Archwilio Cymru (a adwaenir bellach fel Swyddfa Archwilio Cymru), nad oedd gan Awdurdod Tân Gogledd Cymru, fel llawer o awdurdodau lleol, tân, a heddlu, strategaeth rheoli risg gynhwysfawr mewn lle.

2.3 Roedd yr archwiliad yn gwneud pum argymhelliad a oedd yn cynnwys rhoi cyfrifoldeb penodol i uwch swyddog am faterion rheoli risg, sefydlu polisi a strategaeth ysgrifenedig, codi proffil materion rheoli risg ymysg staff, a datblygu trefniadau ar gyfer rheoli a monitro risgiau.

3. **Y POLISI RHEOLI RISG CORFORAETHOL**

3.1 Mae'r polisi drafft Rheoli Risg Corfforaethol sydd ynghlwm wrth yr adroddiad hwn wedi ei ddatblygu mewn ymgynghoriad ag archwilwyr lleol o Swyddfa Archwilio Cymru.

3. **<u>Y POLISI RHEOLI RISG CORFORAETHOL</u>** *(parhad)*

3.2 Mae'r polisi drafft yn atgyfnerthu'r ymrwymiad mae'r Awdurdod yn ei ddangos tuag at ddiwylliant rheoli risg ac ar hyn o bryd mae'r cyrff cynrychioliadol wrthi'n cael eu hymgynghori yn ei gylch.

3.3 Mae'r polisi drafft Rheoli Risg Corfforaethol yn cwmpasu argymhellion y cynllun archwilio.

4. **<u>ARGYMHELLION</u>**

4.1 Bod yr aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad ac yn cefnogi'r polisi.